# Ysgol Bro Gwaun

Pennaeth / Headteacher: Mr Paul Edwards

Cyf: PED/dd/llythrhi0619

Annwyl Riant/Warcheidwad

Ysgrifennaf atoch i gadarnhau'r sefyllfa ynglŷn â'n gwisg ysgol, ac i amlinellu ein disgwyliadau o ran agweddau, megis trowsus, sgertiau ac esgidiau.

Fel yr amlinellwyd yn fy llythyr blaenorol, mae disgyblion wedi cael y dewis o wisgo gwisg haf yn ystod y tymor hwn, sef crys polo gwyrdd a siorts, ac mae llawer wedi dewis gwneud hynny. Mae rhai wedi dewis gwisgo siorts, ac rwy'n falch eu bod o'r gwneuthuriad/brand penodedig a amlinellwyd yn y llythyr.

Ym mis Medi, disgwylir i bob disgybl wisgo crys, tei a siwmper ysgol, fel y dangosir yn y llun. Rhoddir manylion pellach isod.

**Gwisg orfodol Tymor yr Hydref a'r Gwanwyn. CA3 – Tei coch/gwyrdd CA4 – tei gwyrddlas/du**



Bydd gwisg ysgol a chit Addysg Gorfforol/Gemau ar gael i brynu o –

'Naturals', Abergwaun
'Tees R Us', Hwlffordd
'Matthews Menswear and School wear', Hwlffordd

**<u>Côd gwisg ysgol:</u>**

**Trowsus:** Trowsus du wedi'u teilwra o hyd priodol - ni chaniateir unrhyw ddenim/ dim jîns sgini / dim 'leggings', h.y. trowsus sy'n dynn ar flaen y goes a'r bigwrn. Dylai'r trowsus fod yn syth neu 'bootleg' o'r ben-glin. Mae'r brand canlynol yn dderbyniol - 'Banner trimly senior trouser'.
**Sgert:** Dylai sgertiau fod hyd y pen-glin . Y brand derbyniol yw 'David Luke 969'.
**Crys/blowsen:** Crys neu flowsen wen blaen, gyda llewys hir.
**Tei:** Blwyddyn 7, 8 a 9 – tei coch a gwyrdd. Blwyddyn 10 a 11 – tei gwyrddlas a du.
**Esgidiau:** Esgidiau du plaen.
**Ewinedd**: Mae angen hyd priodol/addas o ewinedd.
**Gwallt**: Lliw gwallt addas. Ni dderbynnir unrhyw liw artiffisial o unrhyw liw!
**Colur**: Colur naturiol ac addas.

Cyfeiriad/Address: Heol Dyfed, Abergwaun, Sir Benfro SA65 9DT
Rhif ffôn/Tel: 01348 872268 Ffacs/Fax: 01348 872716
E-bost/E-mail: office@ysgolbrogwaun.com

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
CANOLFAN ACHREDEDIG CBAC WJEC ACCREDITED CENTRE
The Open University
ITT Programme Partner School
PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

**Tlysau corff**: Dim ond tlws trwyn clir sy'n cael ei ganiatáu, dim modrwyau trwyn o gwbl. Ni chaniateir unrhyw dlysau wyneb eraill.
**Gemwaith**: Gall y disgyblion wisgo oriawr ac un fodrwy (dewisol). Clustlysau – caniateir un 'stud' ym mhob clust. Mae oriawr 'SMART' yn cael ei ganiatáu, ond bydd yn rhaid ei dynnu yn ystod yr arholiadau.

Cysylltwch â'r ysgol os gwelwch yn dda os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch am y wisg ysgol.

Hefyd, hoffwn eich hatgoffa o'r canlynol:

**Rhai dyddiadau pwysig:**

| | |
|---|---|
| 02/09/19 | HMS |
| **03/09/19** | **Disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol** |
| 17/09/19 | Cyfarfod C.R.A. 5.00yh – Croeso i bawb |

Unwaith eto, cymeraf y cyfle hwn i ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus drwy gydol y flwyddyn. Bydd rhagor o fanylion am yr holl weithgareddau sydd wedi bod yn digwydd yn yr ysgol dros y ddau dymor diwethaf yn cael eu cynnwys yn ein Bwletin Haf Bro Gwaun, a fydd ar gael yn fuan.

Yn y cyfamser, dymunaf wyliau haf dymunol a diogel i chi i gyd.

Yr eiddoch yn gywir

Mr P Edwards
Pennaeth